COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

CYFARFOD A GYNHALIWYD AR DDYDD GWENER 13eg GORFFENNAF AM 10.00 am YN NHY CARADOG, ST ANDREWS PLACE, CAERDYDD CF10 3BE

Presennol

Yr Athro E Sunderland (Cadeirydd)
Mr E F L FitzHugh (Dirprwy Gadeirydd)
Mrs S Smith (Aelod)
Mr E Lewis (Ysgrifennydd)
Mr S Halsall
Mr C Chapman

1. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 15fed Mehefin 2001.

Cytunwyd arnynt.

2. Materion yn codi.

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

3. Arolwg o'r ffin rhwng Sir Ddinbych a Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn Llangollen.

3.1 Yn dilyn barn y Comisiynwyr y dylid cadw at y sefyllfa bresennol yn ardal Llangollen/Llandysilio-yn-Iâl, **cytunwyd** y dylid paratoi'r cynigion drafft i'w hystyried cyn y cyfarfod nesaf i'w gynnal ar 23ain Awst 2001. **Nodwyd** bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cael ei hysbysu am oedi posibl yn yr amserlen ar gyfer yr arolwg hwn, ac y byddai'r Comisiwn yn gofyn am estyniad. **Cytunwyd** y byddai'n ddoeth gofyn am estyniad hyd at ddiwedd Mawrth 2002.

4. Arolwg o'r ffin rhwng Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro – diweddariad llafar.

4.1 **Nodwyd**, er i rai ymatebion gael eu derbyn ar fater Efailwen, nad oedd y cynghorau cymuned yr effeithiwyd arnynt wedi cyfarfod eto i drafod y cynigion presennol. **Cytunwyd** y dylid trafod y mater hwn yn y cyfarfod ar 23ain Awst pan ddylai pob sylw fod wedi cael ei dderbyn ar y mater hwn.

5. Arolwg o'r ffin rhwng Sir Geredigion a Sir Benfro yn ardal gymuned Llandudoch.

5.1 **Nodwyd** nad oedd y wybodaeth ariannol a ddarparwyd gan Gyngor Sir Ceredigion a'r asesiad o'r data hwnnw gan Gyngor Sir Penfro yn gyson. **Cytunwyd** y dylid asesu'r data yn annibynnol. **Cytunwyd** y dylid cyflogi Rita Hale and Associates, a weithredodd ar ran y Comisiwn ar fater Llangollen, i archwilio'r data a chyflwyno'r adroddiad arno.

5.2 Nododd y cyfarfod y data y byddai Rita Hale and Associates ei angen a **chytunwyd** y dylid ysgrifennu at Gyngor Sir Ceredigion i ofyn amdano, ac y dylid ei ddarparu cyn gynted â phosibl.

6. Arolwg Cymunedol – Llanbadarn Fynydd, Llanbister ac Abaty Cwmhir, Powys

6.1 **Nodwyd** bod Cyngor Sir Powys wedi cwblhau eu harolwg cymunedol a'r ardal a nodwyd (Llanbadarn Fynydd, Llanbister ac Abaty Cwmhir). Roedd Cyngor Sir Powys wedi gofyn am gymorth y Comisiwn i nodi ffiniau addas.

6.2 **Nodwyd hefyd** bod y Comisiwn wedi ysgrifennu at Gyngor Sir Powys yn gofyn am gynigion, a gwybodaeth am glwy'r traed a'r genau yn yr ardal mewn perthynas ag unrhyw ymweliad safle yn y dyfodol gan y Comisiwn.

7. Comisiwn Ffiniau i Gymru – Memorandwm Cytundeb.

7.1 **Cytunwyd** y dylai'r Ysgrifennydd, Mr Edward Lewis, weithredu fel llofnodwr ar ran y Comisiwn mewn perthynas â'r Memorandwm Cytundeb gyda'r Comisiwn Ffiniau i Gymru (Seneddol).

8. Ceisiadau am Arolygon Ffin.

8.1 **Nodwyd** nad oedd Cyngor Sir Ddinbych yn dymuno parhau â'u cais blaenorol am arolwg yn ardal Harbwr y Foryd.

8.2 **Nodwyd** hefyd eu bod yn dal i aros am atebion mewn perthynas ag arolygon a gynigiwyd yn flaenorol yn ardaloedd Llanfairfechan a Llannefydd.

9. Arolwg arfaethedig y Ffiniau Sirol a Gadwyd.

9.1 **Nodwyd** y gallai Cyfarwyddiadau mewn perthynas â Ffiniau Sirol a Gadwyd gael eu rhoi i'r Comisiwn ym mis Awst, i'w cwblhau cyn yr Arolwg Seneddol o Gymru y mae disgwyl iddo ddechrau yn 2003.

10. Unrhyw Fusnes Arall

10.1 Ymweliad Gweinidog De Cymru Newydd, yr Anrhydeddus Harry Woods AS.

Cytunwyd y byddai Mrs Smith yn cynrychioli'r Comisiynwyr yn ystod ymweliad yr Anrhydeddus Harry Woods AS â'r Comisiwn ar ddydd Mawrth 17eg Gorffennaf 2001.